COFNODION CYNHADLEDD FLYNYDDOL A CHYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CYNTAF WEA CYMRU

Cynhaliwyd Dydd Sadwrn Mawrth 29 2014 yn Neuadd y Dref, Llanelli

Yn bresennol: Yr Athro Teresa Rees (cyn Lywydd, WEA De Cymru - Cadeirydd), Maggi Dawson (Prif Swyddog Gweithredol), Stephen Thomas (Clerc y Cyngor).
Aelodau Unigol: Shazia Akhtar, Dave Ashman, Mark Baines, Amanda Bennett, Jasmine Choudhury, Simon Conlin, Jessica Cromie, Steve David, Nigel Davies, Cyng. Ray Davies, Viv Davies, Cath Dawkes, Joe England, Tudur Evans, James Fleming, Christine Franks, Christopher Franks, Christina Gallagher, Nomitha Gallagher, Tracy Garnett, Jeremy Gass, Alison Ghrairi, Louise Gilmore, Jonathan Goddard, Lynne Hayes, Adrian Heathfield, Alan Heneberry, Cath Hicks, Nicola Holmes, Galiya Idrisova, Jayne Ireland, Mark Jenkins, Sarah Jenkins, June Jeremy, Eleanor Ann Jones, Helen Mary Jones, Sonia Jones, Val Jones, Sue Leslie, Claire Lewis, Wendy Lewis, Rhian Liddiard, Hazel Maguire, Clive Morgan, Suzanne Morris, Jayne Murphy, Sarah Murphy, Ray Neil, Tim Owen, Jon Parry, Graham Price, Ann Reardon James, Martyn Reed, Sonia Reynolds, Donna Ridler, Michael Samuel, Leane Saunders, Toni Schiavone, Karina Scott, Katrina Taylor, Nick Taylor, Byron Thomas, Prof. John Thomason, Jan Tiley, Elaine Topping, Kim Vidal, Stuart White, Heather Wilbourne, Caron Williams, Ceri Williams, Sian Williams (71).

Cynrychiolwyr Canghennau: Cathrine Clark (Y Coed-Duon ac Oakdale), Jenni Jones-Annetts, David MacManus, Marilyn Thomas (Caerffili), Jane Carter, Phil Elias, Ken Owen, Caroline Streek (Llanelli), Janet Bailey (Llangynidr), Ceinwen Statter, Huw Williams (Merthyr), Iris Beadman (Perthcelyn), Gerwyn Davies, Graham D Morris (Aberafan), Derek Edwards (Uned 10, Aberafan), Nicola Williamson (Vale) (16).
Cynrychiolydd Sefydliad Cysylltiedig: David Evans – Grŵp Co-operative.

Siaradwyr ac Ymwelwyr: Syr Deian Hopkin, Cyng. Terry Davies (Cadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin), amrywiaeth o gynrychiolwyr o Gynghorau Tref Llanelli a ChefnGwlad Llanelli, a nifer o aelodau o gangen WEA Llanelli. **Archwiliwr:** Huw Baker, Btp Associates Ltd.

Ymddiheuriadau: Megan Adams, Rufus Adams, Ifor Baines, Alan Balcombe, Terry Bishop, Christine Butler, Nicola Campbell, Catherine David, Andrea Davies, Gail Davies, Isabella de la Croix, Mashmooma Din, Laurence Donovan-Warks, Philip Eddy, G J Edwards, Annie Evans, Gwilym T Evans, Karen Fisher, Michael Gallagher, Katrina Gass, Adele Gatt, Jackie Gilderdale, David Girdler, Jeff Greenidge, Clive Griffiths, George Austin Griffiths, Elaine Gwynne, Peter Gwynne, Jacqueline Hatherall, Judith Tipney Hicks, Alison Hill, Rowena Hooper, Elizabeth Hughes, Rob Humphreys, John Hurley, Lynette Hurley, Mark Isherwood (YMCA Cymru CC), Pamela Ismail, Gerry Jenson, Emrys Wyn Jones, Lynda Jones, Sue Keen, Christopher Kidd, A Marilyn Lewis, Matthew Lloyd, Meirion Lloyd Owen, Betty Mason, Richard Morgan, Gareth Morris, Stanley Morris, Rhian Ostler, Valmai Owen, Robin Charles Owens, Lisa Parkhouse, Heather Pickford, Tracey Powell, William Powell AC, Michaela Prior, Sharon Reader, Deanne Rebane, Anne Rees, Dafydd Rhys, Vicky Roderick, Jenny Sheen, Cyng. Ken Stevens, David Cameron Stewart, Derek Thomas, Hywel Thomas, David West, Judith Wilding, Delia Williams, Huw Williams (Pwllheli).

Eitem	CYNHADLEDD FLYNYDDOL
1.	**Croeso a Chyfarchion** Agorodd Yr Athro Teresa Rees y cyfarfod gan groesawu pawb i'r cynulliad hanesyddol hwn o'r corff cenedlaethol unedig a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf WEA Cymru ar ôl ei ffurfio. Ymddiheuriodd ar ran Rob Humphreys, Cadeirydd y sefydliad, am ei absenoldeb anorfod, a chyflwynodd y Cyng. Terry Davies, Cadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin, a estynnodd groeso cynnes i bawb ar eu hymweliad â'r dref a'r sir.
2.	**Araith allweddol** Siaradodd Syr Deian Hopkin, Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac aelod o gangen WEA Llanelli, am '*Y sialensau a'r cyfleoedd sy'n wynebu addysg i oedolion'.* Siaradodd am agweddau o orffennol y Gymdeithas tra hefyd yn cyfeirio at themáu megis cynulleidfa, cyfathrebu a chyflwyno, a chyllid fel materion o bwys yn y dyfodol, i gyd yn gysylltiedig â gweithgarwch WEA Cymru. Codwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau ar y llawr yn y sesiwn drafod a ddilynnodd ei gyflwyniad.
3.	**Sesiynau gweithdy: Nod ac Amcanion WEA Cymru** Yna rhannwyd y dirpwrwyon yn y gynhadledd i bedwar grŵp gweithdy ar wahân, a phob un yn cael ei hwyluso a'u cofnodi gan aelod o staff. Roedd y pedwar grŵp yn mynd i'r afael â phwyntiau yn ymwneud â strategaeth y corff cenedlaethol newydd, ac yn arbennig darparwyd mewnbwn i'r cwestiynau canlynol: - Pwy ddylai fod yn bartneriaid strategol i ni? - Sut ddylem ni ddefnyddio ein statws cenedlaethol newydd? - Beth ddylai ein perthynas fod gyda WEA mewn gwledydd eraill? Yn y sesiwn cyflawn dilynol, cydlynodd Maggi Dawson yr adborth,dan arweiniad y cofnodwyr o'r pedwar grŵp.
4.	**Gwobr Siân Thomason** Gwobrwywyd tri dysgwr WEA Cymru am eu gorchestion eithriadol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er cof am y cyn gyd-weithwraig Siân Thomason. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r enillwyr gan ei thad, Yr Athro John Thomason, a thanlinellodd ganologrwydd addysg i oedolion i fyfyrwyr o'r fath.
5.	**Dathlu Canmlwyddiant Cangen WEA Llanelli** Hysbysodd Ken Owen, Cadeirydd y Gangen, y dirprwyon o uchafbwyntiau gwaith cyfredol y gangen a'r cynlluniau i nodi can mlynedd o weithgarwch gyda rhaglen o ddigwyddiadau arbennig yn ystod y flwyddyn. Roedd ychydig o gynnyrch dosbarthiadau'r Gangen wedi eu harddangos yn y neuadd er mwyn i'r dirprwyon eu gweld.

DRAFT

	CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2014
6.	**Cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol** Ystyriwyd cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol WEA De Cymru 2013, a gynhaliwyd yn Neuadd Lesiant, Ystradgynlais. Cymeradwywyd y cofnodion (cynigydd: Viv Davies; eilydd: Janet Bailey), gydag un ymataliad, yn amodol ar ychwanegu enw June Jeremy i'r rhai oedd yn bresennol, cywiro enwau Marilyn Thomas ac Annette Alexander yn yr un categori, ac ychwanegu enw Adrian Heathfield i'r rhestr o ymddiheuriadau.
7.	**Cyflwyniad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012-2013 WEA De Cymru** Roedd copïau o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon llawn ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod, yn Saesneg a Chymraeg. Yn absenoldeb cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol, cynigiodd Mark Baines (Cyfarwyddwr Cyllid, WEA Cymru) arolwg o gyfrifon y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2013. Dangosodd y flwyddyn olaf lawn yn enw WEA De Cymru sefyllfa ariannol iach, gyda gwarged blynyddol a chronfa sylweddol, a fu'n sail i'r uniad dilynol gyda Choleg Harlech WEA Gogledd Cymru. Soniodd bod y cyfrifon wedi derbyn cymeradwyaeth pendant gan yr archwilwyr allanol, a mynegodd ei ddiolch i'w gyd-weithwyr am sicrhau cywirdeb ariannol y sefydliad. Adleisiodd Huw Baker (ar ran archwilwyr Btp Associates Ltd.) y sylwadau ynghylch y sefyllfa gadarnhaol a gynrychiolwyd gan y fantolen, a gyfeirir ati ar dud. 20 o adroddiad yr archwilwyr, a dymunodd yn dda i'r sefydliad cenedlaethol ar ei newydd wedd. Derbyniodd y CCB bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a gyflwynwyd yn briodol, ac awdurdodwyd ail benodi Btp Associates Ltd. fel archwilwyr WEA Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14 (cynigydd y ddau benderfyniad: Jenni Jones-Annetts; eilydd: Joe England).
8.	**Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ar waith y flwyddyn** Darparodd Maggi Dawson gyflwyniad gweledol a llafar ar weithgareddau'r sefydliad yn ystod 2013-14, gan ganolbwyntio ar y rhagolygon cyffrous ar gyfer y corff unedig mwy, gan gynnwys gwaith prosiect newydd a gweithgareddau estynedig. Disgrifiodd ehangu'r ddarpariaeth addysgol, a rhoddodd ddadansoddiad ystadegol o gyllid WEA Cymru a'i ystod o ddysgwyr a chyrsiau. Diolchodd i'r llywodraethwyr ac aelodau o staff a gynorthwyodd yng ngweithredu'r uniad, i Lywodraeth Cymru am hwyluso'r fath symudiad, ac i'r dysgwyr am barhau yn eu hymrwymiad i'r sefydliad.
9.	**Adroddiad y Cyn-gadeiryddion** Rhoddodd Jeremy Gass grynodeb o'i weithgareddau fel cadeirydd WEA De Cymru tan yr uniad swyddogol ar 10 Ionawr 2014, gan gyfeirio at waith ymchwil, cynhadleddau rhyngwladol ar addysg i oedolion, cysylltiadau gyda

DRAFT

	NIACE Dysgu Cymru, gyda'r undeb llafur UNISON, a rhwydwaith WEA ar draws Ynysoedd Prydain (WISE). Roedd llawer o'i fewnbwn yn gysylltiedig â'r uniad, a mynegodd ei ddiolch am gael bod yn Gadeirydd dros y cyfnod dwy-flynedd pan oedd cefnogaeth ei gyd-aelodau o Gyngor WEA De Cymru, Y Bwrdd Cysgodol a staff wedi sicrhau deilliant cadarnahol i'r broses. Siaradodd Jon Parry yn ei dro, ynghylch y pleser o fod yn bresennol yn y cynulliad unedig, a'r ffaith bod y rhaniad rhwng gogledd a de o fewn y sefydliad wedi dod i ben. Cydnabyddodd bod problemau mewnol sylweddol a phwysau allanol yn ystod y flwyddyn flaenorol yng Ngholeg Harlech WEA Gogledd Cymru, wedi arwain at brofiad ansicr o dro i dro. Diogelwyd mawredd cynt y sefydliad drwy ddyfalbarhad y staff a'r llywodraethwyr, i'r graddau ei fod nawr yn barod i gyfrannu'n llawn fel rhan o'r corff Cymru gyfan newydd. Derbyniwyd adroddiadau y ddau gadeirydd yn swyddogol (cynigydd: Helen Mary Jones; eilydd: Nicola Holmes).
10.	**Cynigion ar gyfer Trafodaeth** Roedd pum cynnig i'w trafod i gyd, ac esboniwyd pob un yn gryno gan y cynigydd. **<u>Cynnig 1</u>** Diwygio Cymal 4, Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau WEA Cymru i: *Gall y Cyngor osod graddfa wahanol o ffioedd ar gyfer pob dosbarth o aelodaeth. Y raddfa ffioedd fydd:* - *Unigolion – Cyflogedig: £10; Digyflog: £4.* - *Canghennau – £10, fel ffi mewn enw.* - *Sefydliadau Cysylltiedig – Lleol: £10; Cenedlaethol: £50.* - *Fforymau dysgwyr – dim ffi.* Cynigydd: Chris Franks (ar ran y Cyngor); eilydd: Helen Mary Jones. **Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol: O blaid: 77** **Yn erbyn: 0** **Ymataliad: 0** **<u>Cynnig 2</u>** Diwygio brawddeg gyntaf Cymal 12, Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau WEA Cymru i: *Bydd Ysgrifennydd y Cwmni yn gwahodd cyflwyno cynigion i'w hystyried yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol dim llai na 90 diwrnod cyn dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.* Cynigydd: Chris Franks (ar ran y Cyngor); eilydd: Caroline Streek. **Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol: O blaid: 74** **Yn erbyn: 0**

DRAFT

Ymataliad: 0

Cynnig 3

Mae'r CCB hwn yn croesawu'r datganiad am werthoedd a gynhwysir yn y ddogfen 'Ynghylch WEA Cymru' – Dangos Parch, Canolbwyntio ar y dysgwr a bod yn Hyblyg, Cyd-weithio, Darparu Gwerth am Arian, a Gweithredu Democratiaeth – a'r weledigaeth a amlinellwyd gan ein Cadeirydd (Rob Humphreys) yn y Lansiad i'r Wasg ym mis Ionawr 2014. Mae'r CCB yn edrych ymlaen i weld sut y bydd y gwerthoedd hyn yn cael eu hymgorffori yn strategaeth a gweithgarwch WEA Cymru.

Cynigydd: Jeremy Gass (ar ran y Cyngor); eilydd: Viv Davies.

Esboniwyd bod gweledigaeth y cadeirydd yn cynnwys cwricwlwm eang, gan gynnwys pynciau dyneiddiol tu hwnt i'r rhai sydd ond wedi eu hachredu.

Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol: **O blaid: 77**
Yn erbyn: 0
Ymataliad: 0

Cynnig 4

Mae'r CCB hwn yn nodi bod rhaniadau mewn cymdeithas yn cael eu dwysáu gan elfennau o'r cyfryngau a Llywodraeth y DU ill dau. O ganlyniad, rydym yn galw ar WEA Cymru i drefnu gweithgareddau fydd yn mynd i'r afael ag anwybodaeth a rhagfarn, datblygu dealltwriaeth a goddefgarwch o amrywiaeth, ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

Cynigydd: Jeremy Gass (fel unigolyn); eilydd: David MacManus.

Ysgogodd hyn y drafodaeth fwyaf ymysg y cynigion. Tra bod rhai yn meddwl ei fod yn disgrifio addysg i oedolion yn ei hanfod, bu trafodaeth hefyd p'un ai oedd gwaith o'r fath yn rhan o rôl WEA Cymru.

Derbyniwyd y cynnig: **O blaid: 76**
Yn erbyn: 1
Ymataliad: 0

Cynnig 5

Mae'r CCB hwn yn cydnabod yr heriau difrifol sy'n wynebu'r system addysg Gymraeg a'r rôl sylweddol bosibl sydd gan addysg i oedolion i helpu i'w goresgyn. Rydym yn galw ar y Cyngor a'r uwch reolaeth i fynd i'r afael â Llywodraeth Cymru mewn datblygu polisi a'i weithredu er mwyn wynebu'r heriau hyn.

Cynigydd: Viv Davies; eilydd: Huw Williams.

Darparodd y sgôr addysgol PISA diweddar ar gyfer Cymru y cyd-destun ar gyfer cyfranwyr ar y mater hwn.

Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol: **O blaid: 77**
Yn erbyn: 0
Ymataliad: 0

DRAFT

11.	**Canlyniadau etholiadau llywodraethwyr ar Gyngor WEA Cymru** Roedd dilyniant o gyhoeddiadau ynghylch llywodraethwyr etholedig newydd ar Gyngor WEA Cymru (y corff llywodraethol). Yn gyntaf, roedd cyfarfodydd y pum Fforwm Rhanbarthol wedi ethol un llywodraethwr yr un i'w cynrychioli ar y Cyngor, fel a ganlyn: Gogledd Orllewin – **Toni Schiavone** Gogledd Ddwyrain, Powys a Cheredigion – **Nigel Davies** De Orllewin – **Derek Edwards** De Cymru Canolog – **Graham Price** De Ddwyrain – **Cathrine Clark** Mae dwy sedd lywodraethol i Gynrychiolydd Dysgwyr yn bodoli ar y Cyngor newydd. Doedd dim enwebiad wedi dod o Ogledd Cymru ar gyfer ei sedd, felly yn unol â'r cyfansoddiad byddai'r Cyngor yn sicrhau nawr bod y sedd yn cael ei llenwi. Daeth enwebiad o'r llawr ar gyfer cynrychiolydd ar gyfer Dysgwyr De Cymru - **David MacManus**. Cafodd ei ethol yn unfrydol gan y dysgwyr hynny oedd yn y cyfarfod (11) ac yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad hwnnw. Mae dwy sedd cynrychiolwyr staff yn bodoli ar y Cyngor, ac roedd dau enwebiad wedi dod ger bron – **Dave Ashman** i gynrychioli'r staff addysgu, a **June Jeremy** fel cynrychiolydd cymorth busnes/staff gweinyddol. Cymeradwywyd rhain gan y CCB. Mae un sedd cynrychiolydd Cangen yn bodoli ar y Cyngor newydd. Enwebwyd **Phil Elias** (cangen Llanelli) o'r llawr, ac aeth ymlaen i gyflwyno ei hun a'i resymau dros ymgeisio. Cafodd ei ethol yn unfrydol gan y cynrychiolwyr a ddefnyddiodd bleidleisiau ar ran eu canghennau yn y cyfarfod (17). Yn olaf, roedd un sedd Cyngor yn cynrychioli cyfuniad o Aelodau Unigol, Sefydliadau Cysylltiedig a Fforymau Dysgwyr. Cafwyd tri enwebiad ar gyfer hon, ac felly cynhaliwyd pleidlais drwy'r post i'r rhai oedd yn gymwys i bleidleisio. Roedd y cyfnod pleidleisio wedi cau ar gychwyn y CCB, ac archwilwyr wedi gwirio'r pleidleisiau a bostiwyd a'r pleidleisiau mewn person a drosglwyddwyd yn gynharach yn y dydd. Dyma'r canlyniad: Jenni Jones-Annetts 30 Mashmooma Din 22 Elaine Gwynne 8 Cadarnhawyd felly mai **Jenni Jones-Annetts** fyddai'r aelod Cyngor ar gyfer y sedd gynrychioliadol honno. Daeth Yr Athro Teresa Rees â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r rhai oedd wedi sicrhau bod y diwrnod wedi mynd rhagddo yn ddidramgwydd, ac ailbwysleisio pwysigrwydd addysg i oedolion fel arf grymuso.

DRAFT